Datganiad Cyfrifon Drafft 2022/23

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2023.

Dangosir terfynau amser statudol 2022/23 yn y tabl isod ynghyd â therfynau amser estynedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Eitem	Dyddiad cau statudol	Dyddiad cau estynedig
Datganiad Cyfrifon Drafft	31 Mai 2023	31 Gorffennaf 2023
Datganiad Cyfrifon Archwiliedig	31 Gorffennaf 2023	31 Rhagfyr 2023

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 a bydd yn gweithio o fewn y terfynau amser estynedig.

Dyddiedig 1 Mehefin 2023

Richard Weigh
Prif Swyddog Cyllid a TGCh
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam